TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

Riding Sunbeams

Gan weithio gyda'n partneriaid, rydym yn ymchwilio i'r defnydd arloesol o dechnoleg ynni adnewyddadwy.

Yn unol â tharged Llywodraeth Cymru o gyflawni allyriadau sero net erbyn 2050, bydd Trafnidiaeth Cymru yn trydaneiddio prif linellau'r Cymoedd.

Bydd trydaneiddio'n cynyddu ein defnydd o ynni ac rydym wedi ymrwymo i ddefnyddio 100% o ynni adnewyddadwy, gyda 50% ohono'n tarddu o Gymru.

Rydym wedi bod yn gweithio gyda chonsortiwm o bartneriaid dan arweiniad Riding Sunbeams ar astudiaeth ddichonoldeb sy'n ymchwilio i'r posibilrwydd o ddefnyddio ynni adnewyddadwy ar ochr y lein er mwyn trydaneiddio gwifrau uwchben yn y Cymoedd.



"Mae'r astudiaeth gyffrous hon yn gyfle euraidd i feddwl sut i ddefnyddio technolegau newydd er mwyn dod ag arweinwyr Cymru ynghyd o ran trydaneiddio rheilffyrdd ac ynni adnewyddadwy cymunedol. Mae cyfoeth o adnoddau ynni adnewyddadwy yn Ne Cymru, a sector ynni cymunedol ffyniannus a allai gyd-fynd yn berffaith â chynlluniau arloesol Network Rail ar gyfer trydaneiddio rheilffyrdd clyfar yn y rhanbarth."

Leo Murray
Cyfarwyddwr Arloesi, 10:10

Yn dilyn ymchwil helaeth a ariannwyd gan Fwrdd Diogelwch a Safonau'r Rheilffyrdd, a chan gydweithio â Trafnidiaeth Cymru, Network Rail ac Ymddiriedolaeth Arbed Ynni Cymru, mae Riding Sunbeams wedi canfod y gallai pŵer tyniant solar gyflenwi o leiaf un rhan o ddeg o'r ynni sydd ei angen i bweru trenau ar lwybrau DC wedi'u trydaneiddio yn y DU bob blwyddyn.

Gallai fod o fudd ariannol hefyd i ffermydd solar a chwmnïau trenau yn awr gan nad oes angen unrhyw gymhorthdal cyhoeddus.

Mae ynni cymunedol, effaith gymdeithasol a phwysigrwydd cydweithio â chymunedau wrth ymyl y lein a defnyddwyr rheilffyrdd wrth galon y prosiect.

Mae gan botensial y dechnoleg hon oblygiadau aruthrol i'r DU a'r byd wrth symud i ddyfodol carbon isel.